

# Fframwaith Llythrennedd - Darllen
## Deall, ymateb a dadansoddi



### 1. Rhuglder wrth ddarllen

Darllen amrywiaeth o destunau heriol a dilys ar goedd gyda mynegiant

**CC3**
Darllen amrywiaeth eang o destunau ar goedd gyda mynegiant, gan amrywio goslef, llais a chyflymder.

**CC4**
Darllen amrywiaeth o destunau heriol a dilys ar goedd gyda mynegiant, gan amrywio goslef, llais a chyflymder er mwyn cyfleu ystyr.

**CC5**

### 2. Ymchwilio'n annibynnol

Ymchwilio i amrywiaeth eang o ffynonellau cyfeirio a digidol er mwyn datblygu dealltwriaeth

**CC3**
Adnabod syniadau a gwybodaeth sydd o ddiddordeb i mi er mwyn datblygu fy nealltwriaeth ymhellach.

**CC4**
Ymchwilio i amrywiaeth eang o ffynonellau cyfeirio a digidol er mwyn datblygu dealltwriaeth lawn o bwnc neu fater.

**CC5**
Ymchwilio'n annibynnol i amrywiaeth eang o ffynonellau er mwyn datblygu dealltwriaeth o bwnc neu fater cynyddol gymhleth.

### 3. Adeiladu geirfa a strwythurau brawddegau

Deall synnwyr geiriau anghyfarwydd mewn cyd-destunau a brawddegau newydd

**CC3**
Darllen er mwyn adeiladu fy ngeirfa a strwythurau brawddegau, gan ddefnyddio'r rhain wrth gyfathrebu.

**CC4**
Darllen er mwyn adeiladu fy ngeirfa a strwythurau brawddegau, gan ddefnyddio'r rhain yn effeithiol wrth gyfathrebu.

**CC5**
Defnyddio gwybodaeth am wahanol strategaethau darllen er mwyn deall synnwyr geiriau anghyfarwydd mewn cyd-destunau a brawddegau newydd mewn testunau cymhleth, a defnyddio'r rhain wrth gyfathrebu.

### 4. Darllen gydag empathi

Darllen gydag empathi er mwyn parchu a gwerthuso'n feirniadol safbwyntiau gwahanol bobl

**CC3**
Darllen er mwyn adnabod safbwyntiau gwahanol bobl ar bynciau amrywiol a datblygu empathi.

**CC4**
Darllen er mwyn adnabod safbwyntiau gwahanol bobl ar bynciau amrywiol, gan eu defnyddio i ddod i gasgliadau.

**CC5**
Darllen gydag empathi er mwyn parchu a gwerthuso'n feirniadol safbwyntiau gwahanol bobl, a'u hystyried fel sail wrth lunio casgliadau.

### 5. Gwahaniaethu rhwng ffeithiau, damcaniaethau a barn

Deall ac ystyried yn fanwl sut y gellir dehongli testunau

**CC3**
Gwahaniaethu rhwng ffeithiau, damcaniaethau a barn.

**CC4**
Gwahaniaethu rhwng ffeithiau/tystiolaeth a rhagfarn/dadleuon.

**CC5**
Deall ac ystyried yn fanwl sut y gellir dehongli testunau, gan wahaniaethu rhwng ffeithiau/tystiolaeth a rhagfarn/dadleuon.

### 6. Adnabod gwahanol ddehongliadau

Adnabod gwahanol ddehongliadau o destun a gwybodaeth a gwerthuso eu rhinweddau cymharol

**CC3**
Deall y prif syniadau a manylion pwysig mewn gwahanol destunau ar yr un pwnc a'u defnyddio.

**CC4**
Adnabod gwahanol ddehongliadau o destun a gwybodaeth a gwerthuso eu rhinweddau cymharol.

**CC5**
Ystyried yn fanwl wahanol ddehongliadau o fateion a syniadau, gan ddefnyddio'r testun/amrywiaeth o ffynonellau i gefnogi barn.

### 7. Darllen yn fanwl

Darllen yn fanwl, gan ddadansoddi cynnwys, iaith ac effaith testunau

**CC3**
Darllen yn fanwl, gan adnabod a nodi nodweddion testunau, e.e. cyflwyniad, dilyniant, darluniau, ffurfioldeb, geirfa allweddol.

**CC4**
Darllen yn fanwl, gwneud gwaith dilynol a defnyddio deunyddiau ychwanegol mewn testunau i ymestyn dealltwriaeth.

**CC5**
Darllen yn fanwl, gan ddadansoddi cynnwys, iaith ac effaith testunau er mwyn dyfnhau dealltwriaeth.

### 8. Adeiladwaith iaith a threfn

Gwybodaeth am sut mae gwahanol destunau wedi'u strwythuro, eu trefnu a'u cysylltu

**CC3**
Defnyddio gwybodaeth am adeiladwaith iaith a threfn testunau i gefnogi dealltwriaeth.

**CC4**
Defnyddio gwybodaeth am sut mae gwahanol destunau wedi'u strwythuro, eu trefnu a'u cysylltu er mwyn cefnogi dealltwriaeth o bwnc.

**CC5**
Defnyddio testunau a argraffwyd a thestunau digidol i chwilio'n ddethol, gan asesu dibynadwyedd, arwyddocâd a chywirdeb yr hyn sy'n cael ei weld.

### 9. Defnyddioldeb a dibynadwyedd

Gwerthuso diben, effaith a dibynadwyedd testunau

**CC3**
Defnyddio gwybodaeth am wahanol fathau o destunau i ystyried a yw testun yn effeithiol o ran cyfleu gwybodaeth, syniadau a safbwyntiau.

**CC4**
Gwerthuso defnyddioldeb a dibynadwyedd testunau.

**CC5**
Gwerthuso diben, effaith a dibynadwyedd testunau yn hyderus.

### 10. Crynhoi, cyfuno a dadansoddi

Crynhoi, cyfuno a dadansoddi gwybodaeth o wahanol ffynonellau

**CC3**
Defnyddio ffynonellau cyfeirio/digidol i ddewis, crynhoi a chyfuno gwybodaeth, gan gyfeirio atyn nhw fel y bo'n briodol.

**CC4**
Crynhoi, cyfuno a dadansoddi gwybodaeth er mwyn magu dealltwriaeth fanwl,e.e. o achosion, canlyniadau, patrymau, gan ddefnyddio gwahanol ffynonellau.

**CC5**
Cyfuno a dadansoddi gwybodaeth er mwyn magu dealltwriaeth eang a chytbwys o ffynonellau a allai gynnwys safbwyntiau croes.

### 11. Cymharu

Cymharu safbwynt gwahanol awduron ar yr un pwnc

**CC3**
Coladu a gwneud cysylltiadau, e.e blaenoriaethu, categoreiddio, rhwng gwybodaeth a syniadau o wahanol ffynonellau gan gynnwys testunau digidol a chlyweledol.

**CC4**
Cymharu safbwynt gwahanol awduron ar yr un pwnc.

**CC5**
Cymharu a gwrthgyferbynnu themâu a syniadau mewn amrywiaeth o destunau yn hyderus, gan gynnwys testunau digidol a chlyweledol, gan ystyried sut maen nhw'n amrywio o ran diben ac effaith.

